

Dewch yn Hyrwyddwr Cydraddoldeb NASUWT yn eich gweithle

Mae NASUWT – Undeb yr Athrawon – wedi ymrwymo'n llwyr i hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle i'w holl aelodau.



Fel rhan o gynlluniau NASUWT i hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle, mae'r Undeb yn cyflwyno rôl Hyrwyddwr Cydraddoldeb. Bydd y swydd eirioli cydraddoldeb newydd hon yn cefnogi cydweithwyr yn eu gweithle ac yn hyrwyddo agenda cydraddoldeb yr Undeb. Bwriad y rôl yw ategu strwythurau gweithle presennol NASUWT a helpu i ymgorffori arfer cynhwysol ar lefel leol.

Yn dilyn hyfforddiant, bydd aelodau sy'n ymgymryd â rôl Hyrwyddwr Cydraddoldeb NASUWT wedi'u cyfarparu i:

- hyrwyddo gwaith cydraddoldeb yr Undeb, gan gynnwys y cynadleddau sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb a'r cyfleoedd hyfforddi i aelodau benywaidd, aelodau ifanc, aelodau Duon, aelodau LGBTI ac aelodau anabl;
- codi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau o'r gwaith cydraddoldeb a wneir gan NASUWT, ac annog cyfranogiad mewn mentrau cydraddoldeb yn y gweithle a'r ardal leol;
- gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer aelodau NASUWT sydd â phryderon sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn y gwaith. Ni fydd Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yn ymgymryd â gwaith achos nac yn mynd ar drywydd cynrychiolaeth ffurfiol, ond byddant yn sicrhau bod materion yn cael eu cyfeirio'n briodol at Cynrychiolydd Ysgol NASUWT neu, lle nad oes cynrychiolydd, Ysgrifennydd y Gymdeithas Leol; ac
- annog aelodaeth o NASUWT trwy hyrwyddo gwaith cydraddoldeb yr Undeb a'i ymrwymiad i weithleoedd cynhwysol.

Bydd Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yn derbyn hyfforddiant llawn gan NASUWT, ynghyd â chanllawiau clir ar gwmpas y rôl a mynediad at gefnogaeth barhaus wrth ei chyflawni.

Gan mai rôl yn y gweithle yw hon sy'n gofyn am adnabyddiaeth a chysylltiad parhaus â'r sefydliad, mae'n addas ar gyfer aelodau staff parhaol.

Mae cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn cael ei gydnabod trwy fathodyn digidol.